
# Llwyddiant Arolwg Staff yn gosod PCGC ymhlith y cyflawnwyr gorau yn GIG Cymru

Fe wnaeth 1,179 o gydweithwyr gymryd rhan yn yr arolwg, ac mae cyfradd ymateb eleni yn sylweddol uwch na chyfradd y llynedd. Mae'r canlyniadau'n rhoi darlun cryf a chynrychioliadol o sut beth yw gweithio yn PCGC, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff a gymerodd ran yn yr arolwg yn argymell PCGC fel lle gwych i weithio.

Mae hefyd yn tynnu sylw at berfformiad eithriadol PCGC ar draws GIG Cymru. Mae'r sgoriau'n rhagori ar feincnod GIG Cymru ym mhob un o'r 10 mesur thema, sy'n dangos ein bod yn perfformio'n well na llawer o sefydliadau'r GIG. Rydym wrth ein bodd mai ni yw'r sefydliad a sgoriodd uchaf mewn pum maes allweddol, a amlinellir isod.




Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg
NHS Wales Shared Services Partnership welcomes correspondence in Welsh and English

## Beth sy'n ein gwneud ni'n wahanol?

## Lle gwych i weithio ac mae hyblygrwydd yn bwysig.

Mae canlyniadau'r arolwg yn datgelu bod dros 74% o staff yn teimlo'n falch o weithio i PCGC. Mae'n galonogol iawn y byddai 72% o staff yn argymell PCGC fel lle i weithio, sef y canran uchaf ymhlith pob un o sefydliadau GIG Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r profiadau cadarnhaol y mae staff PCGC yn eu cael wrth eu gwaith.

Mae gweithio hyblyg yn faes arall lle mae PCGC yn unigryw. Nododd nifer drawiadol o 81% o staff ein bod yn cefnogi gweithio hyblyg, sydd fwy nag 11% yn uwch na chyfartaledd GIG Cymru a'r sgôr uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i lesiant staff ac i greu amgylchedd lle gall staff gydbwyso eu gwaith a'u bywydau personol, sy'n helpu i adeiladu gweithlu mwy gwydn ac ymgysylltiedig.

## Diwylliant o garedigrwydd, parch a pherthyn

Uchafbwynt allweddol arall a amlygwyd gan yr arolwg yw cryfder ein diwylliant. Cyflawnodd PCGC y sgôr uchaf yn GIG Cymru yn y thema tosturiol a chynhwysol. Nododd dros 77% o'n cydweithwyr bod y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw yn ddeallgar, yn garedig, ac yn trin ei gilydd â pharch. Mae hyn yn adlewyrchu'r amgylchedd cefnogol rydym yn parhau i'w adeiladu, sef un lle mae staff yn teimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain ac yn gwybod eu bod yn perthyn.

## Codi Llais Heb Ofn dros Newid

Mae'n galonogol gweld bod 74% o'r staff yn teimlo eu bod yn gallu codi llais heb ofn. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed drwy ein gwaith Codi Llais heb Ofn, sy'n cynnwys cyflwyno Arweinydd Codi Llais heb Ofn a phlatfform diogel a chyfrinachol ar gyfer codi pryderon. Mae'r camau hyn yn dangos ein hymrwymiad i fod yn lle agored, tryloyw a chefnogol i weithio.

## Diogelwch Cleifion yn flaenoriaeth uchel

Rydym yn falch bod 73% o'r staff yn cytuno bod diogelwch cleifion yn un o flaenoriaethau pwysicaf PCGC. Mae hyn yn adlewyrchu ymroddiad cydweithwyr ar draws y sefydliad, sy'n gweithio'n galed bob dydd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gwneud gwahaniaeth uniongyrchol i ofal cleifion. Mae hefyd yn dangos gwerth cael staff brwdfrydig, timau cryf ac amgylchedd gwaith caredig a thosturiol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud eu gwaith gorau.

## Y Gorau yn GIG Cymru o ran Morâl

Maes arall lle rydym yn rhagori ynddi yw morâl, lle ni yw'r sefydliad sy'n perfformio orau yn GIG Cymru. Mae PCGC yn parhau i fod yn weithle lle mae pobl yn teimlo'n falch o weithio, ac er ein bod yn gwybod bod rhagor i'w wneud, mae'r cynnydd a adlewyrchir yn arolwg eleni yn gam cadarnhaol ymlaen. Mae creu gweithle diogel a chefnogol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y cynnydd hwn yn y flwyddyn nesaf.

## Edrych i'r dyfodol

Rydym yn falch o rannu rhai o'n cyflawniadau gwych o ganlyniadau eleni. Rydym yr un mor ymrwymedig i wella'r meysydd sydd angen sylw er mwyn gwneud ein gweithle yn wirioneddol eithriadol.

I gyflawni hyn, byddwn yn cydweithio'n agos â chydweithwyr i wella profiadau'r staff.



**Dywedodd Gareth Hardacre, Cyfarwyddwr Pobl, Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth:**

"Mae'r canlyniadau hyn yn dyst go iawn i'n pobl a'r diwylliant rydyn ni'n parhau i'w adeiladu gyda'n gilydd. Maent yn adlewyrchu'r caredigrwydd, yr hyblygrwydd a'r ymrwymiad a rennir sy'n gwneud PCGC yn lle mor bositif i weithio. Rwy'n arbennig o falch o'r tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol am y gefnogaeth maen nhw'n ei darparu ar draws y sefydliad, sy'n galluogi cydweithwyr i deimlo eu bod nhw'n perthyn, eu bod yn gallu siarad, a gwneud eu gwaith gorau bob dydd."



**Dywedodd Neil Frow OBE, Rheolwr Gyfarwyddwr:**

"Mae'r Arolwg Staff yn rhoi cipolwg pwysig i ni ar sut beth yw gweithio yn PCGC ac yn tynnu sylw at ble mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar gyfer gwelliant parhaus. Pan fydd cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u grymuso, maent yn helpu i greu diwylliant cadarnhaol sy'n cryfhau profiad y staff a'r gwasanaethau a ddarparwn.

Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu gofal, ymrwymiad ac ymroddiad cydweithwyr ar draws PCGC bob dydd. Rwy'n hynod falch bod cynifer o staff yn argymell PCGC fel lle gwych i weithio, ac ein bod yn parhau i arwain ar draws GIG Cymru mewn meysydd fel tosturi, cynhwysiant a gweithio hyblyg.

Er ein bod yn falch o'r canlyniadau hyn, rydym yn ymwybodol bod rhagor i'w wneud. Byddwn yn parhau i wrando, dysgu ac adeiladu ar yr hyn sydd bwysicaf i'n pobl, fel bod PCGC yn parhau i fod yn sefydliad lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu parchu a'u bod yn gallu ffynnu."

## Ymunwch â ni

Os ydych chi'n chwilio am yrfa lle byddwch chi'n teimlo'n werthfawr, yn cael eich cefnogi ac yn rhan o dîm sy'n cyflawni gwaith o safon uchel, byddem wrth ein bodd pe baech chi'n ystyried ymuno â ni .